

DIWYGIO'R BYSIAU

Ein Hymrwymiad i
Gynnwys Cymunedau yn
Ne-orllewin Cymru

5 Mehefin 2025



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council



Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



CYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT
NEATH PORT TALBOT COUNCIL



CYNGOR SIR DINBYDD
DENBIGHSHIRE COUNCIL





Cynnwys

Cyflwyniad	3
Pwy ydym ni	3
Gwybodaeth am y ddogfen hon	3
Cyflwyniad i'r cynllun Diwygio'r Bysiau	4
Ein Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig	6
Ymgysylltu	7
Ar beth rydym ni angen adborth	7
Gyda phwy rydym ni'n ymgysylltu	8
Pryd fyddwn ni'n ymgysylltu â chymunedau	9
Sut byddwn ni'n casglu adborth	9
Deunyddiau a gwybodaeth	10
Y llwyfan ymgysylltu – gwybodaeth ynghylch 'Dweud eich Dweud'	10
Yr arolwg	10
Digwyddiadau	11
Cysylltu â ni	12
Y camau nesaf	13



Cyflwyniad

Pwy ydym ni

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gwmni nid-er-elw sydd o dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Rydym ni'n gyfrifol am hyrwyddo opsiynau trafndiaeth gynaliadwy a darparu rhwydwaith trafndiaeth cwbl integredig a hygyrch sydd o fudd i gymunedau ledled Cymru.

Mae Trafnidiaeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yn Ne-orllewin Cymru yn cydweithio i baratoi ar gyfer y cynllun Diwygio'r Bysiau. Gyda'n gilydd, rydym eisiau creu rhwydwaith trafndiaeth y mae pobl eisiau ei ddefnyddio, yn gallu ei ddefnyddio ac yn ei ddefnyddio – gan helpu i'w gwneud yn haws i bobl wneud dewisiadau trafndiaeth mwy cynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.

De-orllewin Cymru fydd y rhanbarth cyntaf yng Nghymru lle bydd y cynllun Diwygio'r Bysiau yn cael ei gyflwyno yn 2027. Mae'r rhanbarth yn cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Mae amrywiaeth o gymunedau gwledig a threfol yn y rhanbarth. Mae'n gartref i oddeutu 700,000 o bobl – mae tua 45% ohonynt yn economaidd weithgar, 38% yn economaidd anweithgar, ac 17% yn iau nag 16 oed.

Mae rhanbarth De-orllewin Cymru wedi cwblhau ymgynghoriad yn ddiweddar ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft, i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#). Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â diwygio'r bysiau yn y rhanbarth, sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ehangach ond yn fwy penodol i'r rhwydwaith bysiau; hoffem gael barn ynghylch hynny pan fyddwn yn lansio ein hymgyrch ymgysylltu yn yr haf.

Gwybodaeth am y ddogfen hon

Rydym ni wedi ymrwymo i gynnwys cymunedau mewn cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau bws yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu dechrau'r broses honno – ac yn rhoi gwybod am y digwyddiadau cyntaf i ymgysylltu â'r cyhoedd y byddwn yn ei gynnal yn Ne-orllewin Cymru, gan ddechrau yn ystod haf 2025.

Mae gwasanaethau bws yn gwasanaethu pawb, nid dim ond y bobl sy'n eu defnyddio ar hyn o bryd. Mae'r modd i ddefnyddio bysiau'n creu cyfleoedd i bobl a'u cymunedau. Mae'n cefnogi ffyniant economaidd i fusnesau a diwydiannau. Gall defnyddio mwy ar fysiau helpu i leihau traffig ceir ac allyriadau. Felly, rydym yn annog pawb i gyfrannu at y gwaith ymgysylltu hwn – p'un a ydych chi'n defnyddio'r bws yn rheolaidd, yn deithiwr achlysurol neu'n rhywun sydd byth yn neidio ar fws, rydym eisiau casglu safbwyntiau ynghylch ein cynigion ar gyfer y rhwydwaith bysiau yn y rhanbarth.

Fodd bynnag, rhaid i ni fod yn onest – rydym yn gweithio o fewn cyfyngiadau ein hadnoddau (er enghraifft, faint o gyllid, bysiau a gyrwyr sydd ar gael). Am y rheswm hwn, ni fyddwn yn gallu gwneud popeth y byddai pobl eisiau i ni ei wneud yn y cam cyntaf. Mae angen i ni wneud dewisiadau ynghylch sut rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd gennym i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl o dan ein cyfyngiadau. Mae'r rhwydwaith y byddwn yn sôn amdano'n seiliedig ar y rhwydwaith presennol, ond mae yn cynnwys rhai gwelliannau. Rydym ni'n ei alw'n 'Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig'.



Mae'r ymrwymiad hwn yn rhoi manylion am y canlynol:

- Ar ba bynciau rydym yn gofyn am farn, safbwyntiau ac adborth
- Pam mae'n bwysig i ni gael adborth ar y materion hyn
- Pryd fyddwn ni'n ymgysylltu â phobl a chymunedau
- Sut byddwn yn ymgysylltu â chymunedau lleol
- Sut mae cymryd rhan.

Rydym ni eisiau clywed gan y rhanbarth er mwyn helpu i fireinio ein rhwydwaith bysiau lleol arfaethedig drafft i fod yn rhwydwaith y mae pobl leol yn falch ohono.

Cyflwyniad i'r cynllun Diwygio'r Bysiau

Mae Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda gweithredwyr bysiau a rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru i ddiwygio gwasanaethau bws. Mae'r system dadreoleiddio bresennol yn caniatáu i weithredwyr redeg gwasanaethau bws sy'n gwneud elw i'w busnesau. Mae hynny'n gadael i awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am gyllido a darparu gwasanaethau bws sy'n angenrheidiol er lles cymdeithas. Mae'r system bresennol yn ei gwneud yn anodd i ddod â gwasanaethau bws masnachol, a gwasanaethau bws sy'n angenrheidiol er lles cymdeithas, at ei gilydd mewn rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus cydgysylltiedig.


Yn y cynllun newydd, sy'n cael ei alw'n fasnachfreinio, bydd penderfyniadau am wasanaethau bws yng Nghymru (gan gynnwys llwybrau, amserlenni, prisiau, oriau gweithredu a safon ansawdd gwasanaeth), yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Caiff gweithredwyr bysiau wneud cais am contractau o bob maint i redeg gwasanaethau yn unol â'r manylebau a gytunwyd.

Yn y tymor hwy, er mwyn denu mwy o bobl i ddefnyddio bysiau, rydym eisiau:

- creu rhwydwaith bysiau symlach sydd wedi'i gysylltu â gweddill y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru ac sy'n hawdd ei ddefnyddio (Un Rhwydwaith)
- creu amserlenni cydlynol sy'n hawdd eu defnyddio ac sy'n caniatáu cysylltiadau ar draws y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru (Un Amserlen)
- cyflwyno system docynnau symlach er mwyn gallu teithio ar draws y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru gyda phrisiau fforddiadwy a chyson (Un Tocyn).

Mae'r Bil Diwygio'r Bysiau yn mynd drwy'r Senedd, ac rydym yn bwriadu cyflwyno masnachfaint o haf 2027 ymlaen. Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer y newid hwn. Bydd gwasanaethau bus yn cael eu diwygio ar sail ranbarthol, a dyma'r dyddiadau allweddol a'r rhanbarthau (fel y mae pethau ar hyn o bryd):

- De-orllewin Cymru – 2027
- Gogledd Cymru – 2028
- De-ddwyrain Cymru – 2029
- Canolbarth Cymru – 2030



Mae ein rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli teithwyr, staff yn y diwydiant bysiau, gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol, a gweithredwyr mentrau bysiau mawr, bach a chanolig. Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd y byddwn yn mynd ati i fasnachfreinio bysiau ar gael [yma](#).

Ein Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig

Fel rhan o'r cam cyntaf i ddiwygio'r bysiau ar gyfer y rhanbarth, mae Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi datblygu cynnig ar y cyd ar gyfer y rhwydwaith bysiau yn Ne-orllewin Cymru. Rydym ni'n ei alw'n Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig. Dyma'r rhwydwaith rydym ni'n credu y gallwn ei ddarparu o fewn cyfyngiadau ein hadnoddau presennol, a dyma rydym eisiau adborth yn ei gylch.

Byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth am ein Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig, gan gynnwys manylion am y llwybrau ac amllder y gwasanaethau, pan fyddwn yn lansio'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd.

Rydym wedi defnyddio'r rhwydwaith presennol fel man cychwyn i ddatblygu ein Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig. Pan fydd gennym ddata ynghylch y galw am deithio, dibynadwyedd gwasanaethau bws ac amodau gweithredu, rydym yn ei ddefnyddio i helpu i gynllunio'r Rhwydwaith.

Pan oedd yn bosibl, rydym wedi defnyddio ein hegwyddorion cynllunio rhwydwaith (gweler y ffigur isod) i helpu i siapiau ein newidiadau arfaethedig. Hoffem ehangu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, fel ei bod yn ddefnyddiol i fwy o bobl mewn mwy o sefyllfaoedd. Dyna pam rydym wedi cynnwys rhai o'r gwelliannau canlynol yn ein Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig:

- Rhwydwaith symlach y mae'n hawdd ei esbonio, ei gofio a'i ddefnyddio.
- Llwybrau craidd sy'n cynnwys gwasanaethau cyson a fydd yn denu'r nifer uchaf o deithwyr.
- Cyfnewidfeydd rhwng gwasanaethau bws er mwyn gallu teithio'n gyflymach i ragor o gyrchfannau.
- Gwasanaethau mwy uniongyrchol.

Er mwyn sicrhau gwelliannau, mae angen i ni wneud dewisiadau a chyfaddawdu. Er enghraifft, pe bai gorfod newid bws yn ystod taith yn arwain at fwy o opsiynau a thaith gyflymach i'r rhan fwyaf o bobl, a fyddai hynny'n fuddiol? Neu, a yw darparu teithiau cyflymach yn bwysicach na rhedeg gwasanaethau yn hwyrach yn y nos?

Rydym ni'n gwybod na fydd ein Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig yn berffaith i bawb. Dyna pam rydym yn awyddus i gael barn ynghylch ein Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig, y dewisiadau rydym ni'n eu hystyried, ac a ydym wedi cyfaddawdu'n gywir ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru. Bydd adborth yn ein helpu i fireinio ein cynigion.



Ymgysylltu

Ar beth rydym ni angen adborth

Pwrrpas craidd ein gwaith ymgysylltu yw casglu safbwyntiau ynghylch ein Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig, a sut dylem gyfaddawdu wrth gynllunio'r rhwydwaith.

Bydd casglu mewnbwn y cyhoedd nawr yn helpu i sicrhau bod gennym wasanaeth effeithiol ar waith yn Ne-orllewin Cymru yn 2027.

Rydym ni'n deall y bydd pobl o bosibl eisiau rhoi adborth i ni ar bopeth sy'n bwysig iddyn nhw am fysiau, ac rydym yn croesawu hynny. Mae'r rhanbarth eisiau'r gwasanaeth gorau y gallwn ei gynnig, ac rydym yn deall hynny. Fodd bynnag, dim ond cychwyn ein taith yw hyn i newid sut mae gwasanaethau bws yn cael eu darparu yng Nghymru. Bydd yn cymryd amser i wneud newidiadau cadarnhaol sylweddol, wrth i ni fynd drwy gyfnod o drawsnewid a gwelliannau graddol dros nifer o flynyddoedd. Rydym eisiau parhau â'r sgwrs gyhoeddus am ein cynigion drwy gydol y daith hon. Y naill ffordd neu'r llall, os oes gan bobl adborth pwysig i'w rannu nawr, rydym ni eisiau ei glywed.

O ran y gwaith ymgysylltu y byddwn ni'n ei wneud dros yr haf, rydym yn gwahodd ymatebion i'r themâu canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny).

Llwybrau bysiau ac amllder y gwasanaethau

Mae'r llwybrau mae bysiau'n eu dilyn, a ble maen nhw'n stopio, yn bwysig. Beth sy'n dda am y gwasanaeth presennol yn ardal y De-orllewin? Beth ellid ei wella? Unrhyw adborth arall am ein rhwydwaith arfaethedig?

Dewisiadau wrth Gynllunio Rhwydwaith

Wrth ddylunio rhwydweithiau, rydym yn aml yn wynebu gwahanol ddewisiadau a blaenoriaethau. Er enghraifft, a yw darparu teithiau cyflymach yn bwysicach na rhedeg gwasanaethau yn hwyrach yn y nos? Neu, a yw gwasanaeth amlach yn bwysicach na cherdded ychydig yn hirach i'r safle bws agosaf?

Rheoli'r newid

Nid yw newid bob amser yn hawdd – hyd yn oed pan fydd yn rhywbeth cadarnhaol yn y tymor hwy. Oes unrhyw beth sy'n peri pryder ynghylch y newidiadau i'r ffordd y bydd gwasanaethau bws yn cael eu rheoli yng Nghymru, oes angen rhagor o wybodaeth, neu a oes cwestiynau yn dal heb eu hateb? Oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i helpu i sicrhau bod y newid yn digwydd mor hwylus â phosibl?

Ffactorau eraill sy'n llywio profiad pobl

Yn ein cynlluniau tymor hir, rydym yn ystyried popeth sy'n effeithio ar brofiad y cwsmer o deithio ar fws. Mae hyn yn cynnwys cynllunio'r daith, aros yn y safle bws, prynu tocyn a chyrraedd pen draw'r daith. Ein Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig fydd prif ganolbwynt y gwaith ymgysylltu hwn, ond bydd cyfle i roi adborth ar brofiadau eraill o ddefnyddio gwasanaethau bws yn Ne-orllewin Cymru.



Gyda phwy rydym ni'n ymgysylltu

Rydym yn awyddus i gynnwys pawb sydd â diddordeb yn nyfodol gwasanaethau bws y rhanbarth. Hoffem glywed amrywiaeth eang o safbwyntiau – gan y rheini sy'n dibynnu'n fawr ar wasanaethau bws ar hyn o bryd, yn ogystal â'r rheini sydd prin byth yn eu defnyddio, neu ddim yn eu defnyddio o gwbl.

Rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid ledled Cymru i helpu i ddatblygu ein paratodau masnachfreinio. Yn y De-orllewin, rydym yn ymgysylltu â'r rhanddeiliaid rhanbarthol canlynol ar hyn o bryd:

- awdurdodau lleol
- byrddau iechyd
- sefydliadau addysg
- fforymau rhanddeiliaid TrC
- gweithredwyr bysiau
- grwpiau defnyddwyr trafnidiaeth
- cynrychiolwyr etholedig (Aelodau o Senedd Cymru/Aelodau o Senedd y Deyrnas Unedig/Cynghorwyr)
- gweithredwyr a mudiadau trafnidiaeth gymunedol
- awdurdodau parciau cenedlaethol
- cyrff twristiaeth
- Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Hoffem wahodd mwy o grwpiau rhanbarthol i ymuno â'r sgwrs a chymryd rhan yn y gwaith ymgysylltu y byddwn ni'n ei wneud dros yr haf.

Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â grwpiau Cynghori TrC i helpu i siapia ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys Panel Cynghori TrC, Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, Panel Diwydiant Diwygio'r Bysiau a'r Panel Hygyrchedd a Chynhwysiant.

Pryd fyddwn ni'n ymgysylltu â chymunedau

Byddwn yn ymgysylltu ar y cynigion hyn o Haf 2025 ymlaen. Mae'r amserlen gyfredol i'w gweld isod.

1. Cyhoeddi'r Ymrwymiad Ymgysylltu (y cyhoeddiad hwn) – 2 Mehefin 2025
2. Ymgysylltu â'r cyhoedd drwy broses 'Dweud eich Dweud', gan gynnwys gweithdai rhanddeiliaid a sesiynau galw heibio cymunedol – bydd y broses yn cychwyn ar 1 Gorffennaf, ac yn rhedeg drwy gydol mis Gorffennaf, mis Awst a mis Medi 2025
3. Casgliad y gwaith cychwynnol i ymgysylltu â'r cyhoedd a chau'r arolwg ar-lein – 23 Medi 2025
4. Dadansoddiad o'r adborth ymgysylltu – 24 Medi a 31 Hydref 2025
5. Cyhoeddi trosolwg o'r canfyddiadau cychwynnol – wythnos yn dechrau 3 Tachwedd
6. Cyhoeddi adroddiad cyhoeddus llawn sy'n rhannu ein canfyddiadau ac yn egluro'r camau nesaf – Rhagfyr 2025

Sut byddwn ni'n casglu adborth

Byddwn yn defnyddio llwyfan ymgysylltu ar-lein TrC, 'Dweud eich Dweud', i rannu ein rhwydwaith arfaethedig. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys cynlluniau masnachfreinio bysiau, manylion ynghylch ble byddwn yn cynnal digwyddiadau galw heibio wyneb yn wyneb, a'r holl ddogfennau, delweddau, argraffiadau a mapiau ategol.

Bydd arolwg yn cael ei gynnal ar y llwyfan hefyd, er mwyn i bobl rannu eu barn a'u safbwyntiau am y rhwydwaith bysiau arfaethedig ar gyfer De-orllewin Cymru.



Deunyddiau a gwybodaeth

Bydd deunyddiau ar gael i helpu rhanddeiliaid, cymunedau a chwsmeriaid i ddeall masnachfreinio, a fydd yn eu helpu i ddarparu adborth. Bydd y rhain ar gael ar y llwyfan 'Dweud eich Dweud' a (phan fydd yn bosibl) yn ein digwyddiadau, a byddant yn cynnwys:

- Map rhyngweithiol ar-lein sy'n dangos y cynnig ar gyfer rhwydwaith yn y rhanbarth, a chopïau wedi'u hargraffu ar gyfer digwyddiadau wyneb yn wyneb
- Arolwg ar-lein i rannu adborth
- Dogfen Map Ffordd i Ddiwygio'r Bysiau
- Ein Hymrwymiad Ymgysylltu Rhanbarthol
- Llinellau amser â darluniau
- Manylion Cyswllt Allweddol – Timau Prosiect ac Ymgysylltu
- Cwestiynau Cyffredin
- Fersiynau hawdd eu deall o'n deunyddiau allweddol.

Y llwyfan ymgysylltu – gwybodaeth ynghylch 'Dweud eich Dweud'

Mae dweudeichdweud.trc.cymru yn llwyfan ymgysylltu ac ymgynghori ar-lein. Mae'n rhoi cyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid roi adborth ar gynlluniau arfaethedig TrC.

Mae'r llwyfan yn casglu gwybodaeth ddemograffig wrth gofrestru, fel cod post, rhywedd ac anabledau. Mae hyn yn sicrhau bod ein gwaith ymgysylltu yn broses gynhwysol, ein bod yn ymgysylltu â thrawstoriad amrywiol o'r gymuned, ac yn clywed gan y rheini sy'n cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig gan y bydd yn ein galluogi i wybod pa grwpiau nad ydym wedi clywed ganddynt. Byddwn yn trin yr wybodaeth hon yn ofalus, a dim ond at y dibenion a nodwyd yma y byddwn yn ei defnyddio.

Yr arolwg

Nod yr arolwg ar-lein fydd casglu safbwyntiau, a fydd yn helpu i fireinio ein Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig. Fodd bynnag, bydd cyfleoedd testun rhydd er mwyn gallu darparu gwybodaeth am unrhyw beth sy'n bwysig i bobl am fysiau.

I'r rheini nad ydynt yn gallu defnyddio'r arolwg ar-lein, gallwn ddarparu copïau papur y gellir eu postio'n ôl atom. Gellir gwneud hyn drwy gyflwyno cais i'n tîm cyswllt, a byddwn wedyn yn postio'r copïau papur. Bydd gennym gopïau hefyd y gellir eu llenwi a'u gadael gyda ni mewn digwyddiadau, neu fynd â nhw adref a'u llenwi a phostio'n ôl atom ni.



Digwyddiadau

Er mwyn i gynifer o bobl a grwpiau â phosibl allu rhoi adborth ar y cynigion, byddwn yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau.

Gweithdai rhanddeiliaid

Byddwn yn cynnal cymysgedd o weithdai ar-lein a rhai wyneb yn wyneb ar gyfer grwpiau rhanddeiliaid allweddol, er mwyn iddyn nhw allu rhoi adborth ar y cynlluniau ar ran y cymunedau a'r cysylltiadau maen nhw'n eu cynrychioli. Byddwn yn anfon gwahoddiadau i'r gweithdai hyn at rhanddeiliaid – a restrir uchod – cyn y sesiynau. Os oes unrhyw grwpiau rhanddeiliaid nad ydynt yn cael eu cynrychioli uchod, ond a fyddai'n hoffi ymuno â'r gweithdy/gweithdai, rydym yn eu hannog i gysylltu drwy ddefnyddio'r [manylion hyn](#).

Sesiynau galw heibio i'r gymuned

Bydd y sesiynau hyn yn agored i aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid lleol ofyn cwestiynau am yr arolwg.

Dyma lle bydd y sesiynau'n cael eu cynnal, a byddant yn cael cyhoeddusrwydd ar wefan TrC ac yn yr ardal leol ymlaen llaw.

- Sir Gaerfyrddin: Caerfyrddin, Rhydaman a Llanelli
- Castell-nedd Port Talbot: Cymer, Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe
- Sir Benfro: Hwlfordd, Dinbych-y-pysgod ac Abergwaun.
- Abertawe: Canol y ddinas (3 digwyddiad), Gorseinon a'r Mwmbwls

Hyrwyddo

Bydd y llwyfan ymgysylltu ar-lein yn cael ei hyrwyddo ar draws nifer o gyfryngau. Byddwn yn cyhoeddi poster, hysbysebion a thaflenni gyda chod QR i'r dudalen 'Dweud eich Dweud' pan fydd y llwyfan yn weithredol.

Byddwn yn hyrwyddo'r llwyfan ymgysylltu ar-lein ar:

- Y Cyfryngau Cymdeithasol
 - Tudalen Facebook Trafnidiaeth Cymru
 - Tudalen Instagram Trafnidiaeth Cymru
 - Drwy hysbysebion wedi'u targedu ar sail lleoliad ar Meta (Facebook ac Instagram, er mwyn cyrraedd y rheini nad ydynt eisoes yn dilyn Trafnidiaeth Cymru ar gyfryngau cymdeithasol)



- Cyfryngau print prif ffrwd:
 - Drwy hysbysebion mewn papurau newydd lleol (South Wales Evening Post, Western Telegraph a Carmarthen Journal)
 - Drwy hysbysebion mewn cyhoeddiadau newyddion cymunedol
- Hysbysebion ar hysbysfyrddau mewn lleoliadau trafnidiaeth allweddol ac mewn lleoliadau yng nghanol trefi ac mewn siopau, yn ogystal â gorsafoedd bysiau a threnau.
- Cardiau busnes sy'n cynnwys y cod QR at y llwyfan ymgysylltu, a fydd yn cael eu dosbarthu mewn lleoliadau allweddol.
- Llwyfannau Sefydliadau Partner:
 - Awdurdodau Lleol
 - Byrddau Iechyd
 - Gweithredwyr Bysiau
 - Llywodraeth Cymru
 - Cyngorau Gwirfoddol Sirol a rhwydweithiau trydydd sector
- Bwletinau i Randdeiliaid
- Datganiadau TrC i'r Wasg – a gyhoeddir i'r holl gyfryngau prif ffrwd yng Nghymru (darlledu, print ac ar-lein).
- Gwefan TrC / Traws Cymru
- Negeseuon naid ar Apiau TrC

Cysylltu â ni

Gwybodaeth gyswllt gael [yma](#).



Y camau nesaf

Rydym eisiau casglu safbwyntiau pawb sydd â diddordeb mewn masnachfreinio bysiau yn Ne-orllewin Cymru. Bydd y data a fydd yn cael ei gasglu drwy'r gwaith ymgysylltu hwn yn cael ei ddadansoddi, ei werthuso, ei grynhoi a'i gyhoeddi ar ffurf adroddiad. Mae'n allweddol bod yn dryloyw ar bwnc mor bwysig. Byddwn yn rhannu ein canfyddiadau â'r bobl a'r sefydliadau y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio fwyaf arnynt.

Byddwn yn ystyried yr adborth wrth i ni weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yn Ne-orllewin Cymru i ddiweddarau'r Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig yn ystod hydref 2025.

Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd erbyn diwedd 2025 beth fydd y Rhwydwaith Sylfaen Diweddaredig. Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth am sut mae'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd wedi ein helpu i freinio ein cynigion o fewn cyfyngiadau ein hadnoddau, ac i weld themâu cyffredin ar gyfer gwelliannau.